| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **DYDDIAD** | 18 Mehefin 2026 |
| **TEITL** | Ymgynghoriad Polisi Cludiant Addysg Drafft |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Mae Polisi Cludiant Addysg wedi ei adnabod yn y gweithdy blynyddol ar gyfer ei graffu yn 2026-27. |
| **AWDUR** | Debbie Anne Williams Jones<br>(Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Addysg) |
| **AELOD CABINET** | Dewi Jones<br>(Aelod Cabinet Addysg) |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

1.1 Yn unol â chais y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, rydym yn cyflwyno drafft o Bolisi Cludiant Addysg yn dilyn cynnal cyfnod ymgynghori ar gynigion i ddiwygio cynnwys y polisi presennol. Gweler copi o'r Polisi Cludiant Addysg Drafft yn Atodiad 1.

1.2 Bydd arweiniad y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y cynigion i ddiwygio'r polisi, ynghyd ag ymateb y pwyllgor i'r sylwadau a dderbyniwyd gan ymgynghorai yn ein galluogi i ystyried y cynigion ar gyfer y Polisi Cludiant Addysg ymhellach, cyn adrodd yn ôl i'r Cabinet ar ganlyniad yr ymgynghoriad, gan ofyn iddynt fabwysiadu'r Polisi Cludiant Addysg yn derfynol.

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

2.1 Mae cyflwyno'r Polisi Cludiant Addysg drafft yn dilyn cynnal cyfnod ymgynghori yn rhoi cyfle i'r pwyllgor ystyried y cynigion ar gyfer diwygio'r polisi, ynghyd ag ystyried y sylwadau sydd wedi eu derbyn gan ymgynghorai i'r cynigion hynny. Cyflwynir hefyd fersiwn wedi ei ddiweddaru yn dilyn ystyried sylwadau'r ymgynghoriad o'r Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg ac Economaidd Gymdeithasol.

2.2 Gofynnir am sylwadau ac adborth y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y cynigion canlynol:

- Cynllun Seddi Gweigion
- Ysgolion Ffydd
- Preswyliad Deuol
- Ôl-16

2.3 Gofynnir hefyd am sylwadau ac adborth y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y sylwadau a dderbyniwyd gan ymgynghorai ac ymateb y Cyngor i'r sylwadau rheiny.

2.4 Gwahoddir sylwadau ac adborth y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar gynnwys yr Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg ac Economaidd Gymdeithasol.

**3. Crynodeb a'r Materion Allweddol**

3.1 Mae'r prif gynigion ar gyfer y Polisi Cludiant Addysg Drafft yn y meysydd canlynol:

- Cynllun Seddi Gweigion
- Ysgolion Ffydd
- Preswyliad Deuol
- Ôl-16

3.2 Yn Atodiad 3 a 4, cyflwynir crynodeb llawn o'r ymatebion a dderbyniwyd gan ymgynghorai ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r ymatebion rheiny.

3.3 Yn Atodiad 5 ceir Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg ac Economaidd Gymdeithasol wedi ei ddiweddaru ar ôl ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

3.4 Gwahoddir sylwadau ac adborth y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y cynigon a'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd a'r Asesiadau Effaith er ystyriaeth bellach gan yr Adran Addysg, a'r Cabinet maes o law.

**4. Cefndir / Cyd-destun**

4.1 Mabwysiadwyd y Polisi Cludiant Addysg presennol yn 2009, ac er nad oes newid i'r gofynion statudol ynghlwm â darparu cludiant i ddysgwyr, mae'n amserol adolygu'r polisi oherwydd yr angen i:

- Sicrhau ein bod yn cyfarch gofynion a chanllawiau statudol cyfredol:
  - Yr angen i ymgynghori o leiaf 12 mis cyn cyflwyno newid i ran neu gyfan o'r elfennau dewisol o'r polisi
- Sicrhau eglurder ar yr elfennau dewisol er tegwch i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd:
  - Mae anghysondeb yng nghynnwys y polisi ar draws yr holl feysydd, ac mae'n anghyson hefyd o ystyried polisïau cludiant rhai siroedd eraill.
- Sicrhau bod y Polisi'n addas i bwrpas o ran rhesymoldeb gweithredu oddi fewn i'r adnoddau sydd ar gael:
  - Mae'r Polisi wedi dyddio sy'n golygu nad oes modd gweithredu elfennau ohono mwyach yn sgil gofynion a chanllawiau statudol;
  - Mae'r Polisi yn amwys sy'n llesteirio gallu'r Awdurdod i wneud penderfyniadau clir a chytbwys gan ein gadael yn agored i her a chwynion.

4.2 Mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (y Mesur) yn nodi'r fframwaith cyfreithiol sy'n benodol berthnasol i ddarpariaethau teithio a thrafnidiaeth ar gyfer dysgwyr sy'n teithio o'r cartref i'r ysgol yng Nghymru; gyda 'Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol' (Y Canllawiau) a gyhoeddwyd yn 2014.

4.3 Mae'r Mesur yn nodi bod rhaid i awdurdodau lleol: -

- Asesu anghenion teithio dysgwyr yn ardal ei hawdurdod;
- Darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgol gynradd sy'n byw dwy filltir o'r ysgol addas agosaf;
- Darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim i ddysgwyr o oedran ysgol sy'n mynychu ysgol uwchradd sy'n byw tair milltir o'r ysgol addas agosaf;
- Asesu a diwallu anghenion plant 'sy'n derbyn gofal' yn ardal eu hawdurdod;
- Hyrwyddo mynediad i addysg Gymraeg ac ysgolion ffydd;
- Hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy.

4.4 Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol yn unol â gofynion y Mesur. Ar yr un pryd, o fewn y Mesur, gall yr Awdurdod Lleol wneud trefniadau dewisol o dan ran 6 y Mesur, ac ar sail dewis a disgresiwn yr Awdurdod.

4.5 Yn unol â'r Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009, mae gofyn i Awdurdodau Lleol gyhoeddi gwybodaeth am eu polisïau i ddarparu cludiant dewisol o fewn eu Polisi Cludiant Addysg, ac os bydd Awdurdod yn gwneud defnydd o bwerau Rhan 6 i ddarparu cludiant dewisol, mae gan yr Awdurdod hefyd yr hawl i ddiddymu'r ddarpariaeth yn ddiweddarach. Er mwyn gwneud hynny, o dan ganllawiau statudol 2014, mae'n ofynnol:

- Cynnal ymgynghoriad cyn dileu neu addasu darpariaeth ddewisol; a
- Cyhoeddi trefniadau erbyn 1 Hydref y flwyddyn flaenorol.

4.6 Mae'r prif newidiadau a gynigir i'r Polisi Cludiant Addysg (Drafft) i bwrpas ymgynghori yn ymwneud â darpariaeth cludiant dewisol yr Awdurdod yn y meysydd canlynol:

- Cynllun Seddi Gweigion
- Ysgolion Ffydd
- Preswyliad Deuol
- Ôl-16

4.7 <u>Cynllun Seddi Gweigion</u>

4.8 Ar hyn o bryd, cynigir sedd wag i ddysgwyr nad oes ganddynt hawl i gludiant di-dâl os bydd argaeledd sedd ar gludiant a chodir tâl am y sedd honno. Mae manteisio ar y cynllun yn amodol ar:

- Bod seddi gwag ar gael;
- Nid oes angen i'r cerbyd wyro oddi ar ei daith arferol;
- Dim costau ychwanegol i Gyngor Gwynedd;
- Talu'r ffi gyfredol am sedd wag.

4.9 Nid yw'r cynllun ar gael ar gytundebau cludiant cyhoeddus, ac nid oes sicrwydd y bydd y sedd wag ar gael drwy gydol y flwyddyn academaidd. Ceisir rhoi o leiaf wythnos o rybudd petai'r trefniant yn gorfod dod i ben.

4.10 Yn sgil y gofynion statudol i ymgynghori a chyhoeddi unrhyw newid cyn 1 Hydref y flwyddyn flaenorol, nid oes modd gweithredu'r Cynllun Seddi Gweigion fel y bwriadwyd heb ymrwymo i gynnig sedd wag drwy gydol y flwyddyn academaidd. Mae hyn yn mynd yn

groes i hanfod y cynllun o drefniant hyblyg i allu cynnig sedd wag heb ymrwymo i ddarparu'r sedd am gyfnod penodol, gan y gallai hynny arwain at gostau ychwanegol i'r Awdurdod. O ganlyniad, mae'r Cynllun Seddi Gweigion fel pennawd wedi'i ddiddymu fel cynnig o'r Polisi Cludiant Addysg Drafft.

4.11 Ysgolion Ffydd

4.12 Ar hyn o bryd nid oes cyfeiriad at ysgolion ffydd yn y Polisi Cludiant Addysg er y darperir cludiant i ddysgwyr sy'n dewis mynychu'r ysgolion ffydd ar hyn o bryd yn unol â'r gofyn statudol. Mae gan Wynedd ddwy ysgol ffydd (ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir), a'r ysgolion eu hunain yw'r awdurdodau mynediad yn hytrach na'r Cyngor, ac felly nid oes ffiniau dalgylch penodol ar eu cyfer fel gyda gweddill ysgolion y sir.

4.13 Mae gofyn i'r awdurdod hyrwyddo mynediad i ysgolion ffydd, felly mae cludiant i ysgolion ffydd fel cynnig wedi ei ychwanegu i'r Polisi Cludiant Addysg Drafft. Mae'r cynnig yn nodi'r bwriad i ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr yn unol â'r gofyn statudol, ac i ddysgwyr sy'n byw ddim mwy na phum milltir o'r ysgol (ffydd) addas agosaf, gan adlewyrchu'r ffaith fod ysgol ffydd yn gwasanaethu ardal ehangach na dalgylch arferol ysgol, gan gynnig eglurder o fewn y polisi ar yr hawl i gludiant.

4.14 Preswyliad Deuol

4.15 Pan fydd rhieni yn rhannu cyfrifoldeb am blentyn a bod y plentyn yn preswylio mewn dau gartref, sef cartrefi'r ddau riant ar wahân, bydd yr Awdurdod yn darparu cludiant o'r prif gyfeiriad, sef y cyfeiriad y mae'r dysgwr yn ymgartrefu gan amlaf, gydag o leiaf un o'r preswylfeydd hynny yng Ngwynedd. Mae hyn ar yr amod mai'r ysgol a fynychir yw'r ysgol addas agosaf o'r brif breswylfa, neu y cytunir mai dyna'r ysgol fwyaf addas o ystyried lleoliadau'r ddwy breswylfa.

4.16 Mae'r Polisi Cludiant Addysg Drafft yn cynnig rhagor o eglurder, sef y darperir cludiant yn unol â'r gofyn statudol, ond na ddarperir cludiant o unrhyw un o'r ddwy breswylfa os yw'n fwy na 5 milltir o'r ysgol addas agosaf.

4.17 Cludiant Ôl-16

4.18 Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn darparu cludiant dewisol i ddysgwyr ôl-16 llawn amser i'r sefydliadau addysgol canlynol:

- Ysgolion uwchradd sy'n darparu ar gyfer Blynyddoedd 12 & 13.
- Ysgolion arbennig sy'n darparu ar gyfer Blynyddoedd 12 & 13 & 14 Grŵp
- Llandrillo Menai - safleoedd Dolgellau, Pwllheli, Glynllifon, Safle Menai Parc Menai - Bangor, Llangefni a Chaernarfon.

4.19 Mae'r Polisi Cludiant Addysg Drafft yn cynnig bod yr awdurdod yn darparu cludiant dewisol y tu hwnt i oedran ysgol statudol lle mae dysgwyr cymwys sy'n byw yng Ngwynedd yn byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol neu'r coleg ôl-16 addas agosaf sy'n darparu'r cwrs.

4.20 Mae'r cynnig i ddarparu cludiant ôl-16 i'r ysgol ddalgylch/addas agosaf, ynghyd ag i'r safle coleg agosaf sy'n darparu'r cwrs yn:
- gyson gyda gweddill y Polisi Cludiant Addysg ar gyfer dysgwyr oedran addysg statudol.
- golygu bod y ddarpariaeth cludiant yn cefnogi darpariaeth ôl-16 ar draws y sir, ac yn cyfrannu at sicrhau hyfywedd y darpariaethau ledled y sir, yn Arfon, Dwyfor a Meirion wrth gludo dysgwyr i'r safleoedd agosaf sy'n darparu'r cwrs.
- golygu na fydd myfyrwyr Prifysgol Bangor yn gymwys am gludiant ôl-16 gan fod y cynnig yn ymwneud â chludiant i ysgolion uwchradd neu safleoedd Grŵp Llandrillo Menai yn unig
- golygu cyfyngder oedran o fod yn llai nag 19 oed ar 1 Medi yn y flwyddyn academaidd y dilynwyd y cwrs. Mae hyn yn gyson gyda pholisi cludiant siroedd eraill.

4.21 Nodir fod gan ddysgwyr yr hawl i ddewis unrhyw leoliad ar gyfer eu haddysg ôl-16, ond os na fydd dysgwr yn dewis yr ysgol/ safle coleg agosaf sy'n darparu'r cwrs yna byddent yn colli eu hawl i gludiant am ddim, yn yr un modd â'r Polisi Cludiant Addysg ar gyfer dysgwyr oedran addysg statudol.

4.22 <u>Eglurder Pellach</u>

4.23 Ceir yna hefyd feysydd eraill o fewn y Polisi Cludiant Addysg ble rydym wedi ychwanegu manylder ac eglurder i'r polisi, ond nid yw'r ychwanegiadau hynny'n arwain at unrhyw newid i'r ymrwymiad i ddarparu cludiant yn unol â'r Polisi Cludiant presennol. Mae'r meysydd hynny'n cynnwys:
- Mesur Pellter Teithio
- Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Chyflyrau Meddygol
- Plant sy'n derbyn gofal
- Ad-drefnu Ysgolion
- Disgwyliadau ar rieni/gwarchodwyr - Taliadau cludiant

## 5. Ymgynghori

5.1 Cyflwynwyd adroddiad i Gabinet ar 20 Ionawr 2026 yn gofyn caniatâd i gynnal ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg drafft. Yn dilyn derbyn caniatâd y Cabinet, cynhaliwyd yr ymgynghoriad am gyfnod o 6 wythnos rhwng 9 Chwefror a 20 Mawrth 2026.

5.2 Cyhoeddwyd pecyn ymgynghori ar-lein ynghyd â ffurflen ymateb pwrpasol, a derbyniwyd cyfanswm o 31 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad drwy gyfrwng y dull hwn. Ceir copi o'r ffurflen ymateb yn Atodiad 2. Nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys yr adborth gan ddysgwyr yn ystod y sesiynau ymgynghori a gynhaliwyd.

5.3 Mae'r Adroddiad Ymgynghori (Atodiad 3) yn cynnwys crynodeb llawn o'r holl faterion a godwyd gan yr ymgynghorai drwy'r ffurflen ymateb ar-lein, ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Rhestrir isod y prif themâu a godwyd gan yr ymgynghorai, ac mae ystyriaeth fanylach ar bob un o'r materion hyn i'w gweld yn Atodiad 3.

- Cynllun Seddi Gweigion
- Ysgolion Ffydd

- Preswyliad Deuol
- Darpariaeth ôl-16
- ADY a Theithio Annibynnol
- Teithio Llesol
- Cyffredinol
- Safonau'r Gymraeg

5.4 Er mwyn sicrhau llais plant a phobl ifanc yn yr ymgynghoriad hwn, cynhaliwyd nifer o sesiynau ymgynghori penodol gydag oddeutu 104 o fyfyrwyr yn y lleoliadau canlynol:

- Grŵp Llandrillo Menai – Safle Coleg Menai, Bangor
- Grŵp Llandrillo Menai – Safle Pencraig, Llangefni
- Grŵp Llandrillo Menai – Safle Meirion-Dwyfor, Dolgellau
- Grŵp Llandrillo Menai – Safle Meirion-Dwyfor, Pwllheli
- Grŵp Llandrillo Menai – Safle Meirion-Dwyfor, Glynllifon

At hyn, cynhaliwyd sesiwn penodol ar gynigion y Polisi Cludiant Addysg Drafft gyda'r Fforwm Sirol Plant a Phobl Ifanc.

5.5 Rhestrir isod y prif themâu a godwyd gan y bobl ifanc yn y sesiynau ymgynghori a gynhaliwyd, ac mae ystyriaeth fanylach ar bob un o'r materion hyn i'w gweld yn yr Adroddiad Ymgynghori. (Atodiad 4).

- Lleoliad y Cwrs
- Costau Cludiant
- Cyfyngder Oedran
- Dysgwyr gydag ADY
- Cludiant Cyhoeddus
- Amserlenni Cludiant
- Cyfrifo Pellter Teithio

5.6 <u>Penaethiaid Ysgolion</u>

5.7 Rhoddwyd cyflwyniad ar gynnwys y Polisi Cludiant Addysg Drafft gerbron penaethiaid uwchradd ar 11 Chwefror a'r penaethiaid cynradd ar 25 Chwefror 2026. Amlinellwyd y prif newidiadau ynddo a chodwyd ymwybyddiaeth o'r holiadur ar-lein, gan eu gwahodd i gyflwyno unrhyw sylwadau fel rhan o'r ymgynghoriad. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y sesiwn yn ymwneud â'r posibilrwydd o ddiddymu'r Cynllun Seddi Gweigion yn raddol, ynghyd ag addasrwydd a safon yr hyfforddiant a ddarperir i'r rheiny sy'n darparu cludiant addysg ar ran y Cyngor.

5.8 <u>Fforwm Llywodraethwyr</u>

5.9 Rhoddwyd cyflwyniad hefyd i'r Fforwm Llywodraethwyr ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft ar 26 Chwefror 2026, ble amlygwyd y prif gynigion i'r polisi a chodi ymwybyddiaeth o'r holiadur ar-lein, gan roi cyfle iddynt ofyn cwestiynau neu i gynnig sylwadau yn ystod y sesiwn. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y sesiwn yn ymwneud â'r Cynllun Seddi

Gweigion o safbwynt y posibilrwydd i'w ddiddymu'n raddol, ac effaith posib ei ddiddymu ar gymunedau ac ysgolion bach gwledig.

## 6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cynhaliwyd asesiad o effaith y cynigion i addasu'r Polisi Cludiant Addysg ar Gydraddoldeb, Y Gymraeg, y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, a'r ystyriaethau perthnasol yng nghyd-destun y Ddeddf Llesiant cenedlaethau'r Dyfodol 9Cymru) 2015, ac fe gyhoeddwyd yr asesiad fel rhan o'r pecyn ymgynghori ar y Polisi Cludiant Addysg. Yn dilyn yr ymgynghoriad, fe adolygwyd yr asesiad. Gellir gweld yr Asesiad llawn yn Atodiad 4.

## 7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

7.1 Cynhaliwyd asesiad o effaith y cynigion i addasu'r Polisi Cludiant Addysg ar Gydraddoldeb, Y Gymraeg, a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, ac fe gyhoeddwyd yr asesiad fel rhan o'r pecyn ymgynghori ar y Polisi Cludiant Addysg. Yn dilyn yr ymgynghoriad, fe adolygwyd yr asesiad. Gellir gweld yr Asesiad llawn yn Atodiad 4.

7.2 <u>Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011)</u>

Cadarnheir fod yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg wedi ei gynnal yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg 88-93 o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn unol â Safonau 88, 89, 90 rhoddwyd ystyriaeth gydwybodol i'r effeithiau posibl y gallai'r penderfyniad polisi eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan gynnwys ystyried yr effeithiau cadarnhaol ac andwyol posibl, sut y gellid llunio neu addasu'r cynnig er mwyn sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol, a sut y gellid lleihau unrhyw effeithiau andwyol posibl.

Yn ogystal, yn unol â Safonau 91, 92, a 93, ystyriwyd a cheisiwyd barn drwy'r broses ymgynghori statudol ynghylch yr effeithiau ieithyddol hyn, gan gynnwys barn ar sut y gellid llunio neu addasu'r cynnig er mwyn cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau andwyol ar y Gymraeg. Cefnogwyd y gofynion hyn drwy gynnal Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, ac mae'r asesiadau hyn wedi'u hadolygu a'u diweddaru yn dilyn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg.

## 8. Camau Nesaf

*8.1* Yn dilyn ystyried sylwadau aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, mae bwriad cyflwyno adroddiad i'r Cabinet yn gofyn iddynt fabwysiadu'r Polisi Cludiant Addysg diwygiedig. Bydd y Polisi Cludiant Addysg terfynol wedi cymryd i ystyriaeth yr holl sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o'r broses ymgynghori, ynghyd â sylwadau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi. Bydd angen i'r polisi gael ei fabwysiadu cyn 1 Hydref 2026 er mwyn dod yn weithredol o 1 Medi 2027 ymlaen.

**9. Atodiadau**

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Polisi Cludiant Addysg Drafft |
| Atodiad 2 | Ffurflen Ymateb |
| Atodiad 3 | Adroddiad Ymgynghoriad Cyhoeddus |
| Atodiad 4 | Adroddiad Ymgynghoriad Dysgwyr |
| Atodiad 5 | Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg ac Economaidd-Gymdeithasol |
| Atodiad 6 | Diweddariad ar y Rhaglen Waith a'r Sefyllfa Gyllidol. |
| Atodiad 7 | Astudiaeth Achos |